Papur Ymgynghorol ar Ddiwygiadau Defnyddwyr

Mesur Entrepreneuriaeth

Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at Ran 8 o'r Mesur Entrepreneuriaeth. Mae'n delio â gweithdrefnau newydd i ddeddfwriaeth fydd yn diogelu defnyddwyr. Bydd mewn grym ar draws y DU

Nid y mesur ei hunan yw byrdwn y ddogfen ymgynghorol hon. Esbonia'r ddogfen pa ddarpariaethau a wnaed i ddefnyddwyr a'r ffordd y mae'r OFT[1] yn bwriadu eu gweithredu. Bydd y canllawiau hefyd yn esbonio sut y gall y gwahanol orfodwyr a phleidiau cyfrannog eraill sydd yn cael eu hawdurdodi dan y Mesur, weithio yn y modd mwyaf effeithiol.

Gellir gweld manylion am y Mesur Entrepreneuriaeth, yn cynnwys nodyn esboniadol a'r fersiwn ddiweddaraf o'r Mesur ar wefan yr Adran Masnach a Diwydiant (DTI) **www.dti.gov.uk/enterprisebill** yn rhad ac am ddim. Gellir prynu copïau o'r Mesur yn Llyfrfa ei Mawrhydi.

Erys y Mesur Entrepreneuriaeth yn amodol i'w gadarnhau a'i gymeradwyo gan drafodaeth seneddol. Adlewyrcha'r canllawiau drafft hyn gynnwys a rhifau cymalau'r Mesur fel ag y mae ar 19eg, Mehefin 2002. Cyhoeddir y canllawiau gorffenedig gan yr OFT ar ôl i'r Mesur dderbyn Cydsyniad Brenhinol.

Mae'n rheidrwydd i'r Swyddfa Masnachu Teg (OFT) o dan [gymal 224] o'r Mesur Entrepreneuriaeth, ddarparu canllawiau yn esbonio'r gweithdrefnau fydd yn diogelu

defnyddwyr unwaith y bydd y mesur yn dod yn Ddeddf. Bydd yn mynnu hefyd bod yr OFT yn ymgynghori â'r rhai hynny sydd yn cael eu heffeithio gan y darpariaethau pan fydd y canllawiau hyn yn cael eu paratoi. Mae'r ymarferiad ymgynghorol yn ateb y diben hwn. Fe'i gweithredir yn unol ag anghenion Côd Arferion Swyddfa'r Cabinet ar Ymgynghoriad Ysgrifenedig. Gwelir meini prawf yr Ymgynghoriad ar dudalen 36 o'r ddogfen hon.

Amgaeir copi o'r canllawiau arfaethedig, gan gynnwys crynodeb. Gellir cael copi hefyd o'r ymgynghoriad ar wefan yr OFT, **www.oft.gov.uk**. Mae'r cyflwyniad i'r drafft ymgynghori ar gael yn y Gymraeg.

Bydd tair rhan i'r canllawiau terfynol: crynodeb, y prif ganllawiau ac atodiad. Yn yr atodiad, ceir crynodeb byr o'r ddeddfwriaeth a fydd yn cael ei rhagnodi yn yr Offeryn Statudol perthnasol a ddaw yn dilyn Cydsyniad Brenhinol.

Anelir yr Ymgynghoriad at:

- fusnes a'i gynrychiolwyr.
- sefydliadau defnyddwyr, a
- gorfodwyr

Ceir rhestr o'r sefydliadau y byddwn yn ymgynghori â hwy yn Atodiad A (tudalen 32). Bydd pob ymateb o ba darddle bynnag yn cael ei groesawi'n fawr. Ystyriwn fod ymgynghori yn cymryd cryn dipyn o amser, ond bydd ymatebion yn ein galluogi i ddatblygu cyfundrefnau cydgysylltiol ac effeithiol ac a fydd, o'r herwydd, yn cynnig gwell manteision i ddiogelu defnyddwyr.

Er mwyn ein cynorthwyo i ganolbwyntio ar y materion allweddol, ceir cyfres fer o gwestiynau ar dudalen 4. Byddai o gymorth mawr i ni petai eich atebion yn cyfeirio'n uniongyrchol at y cwestiynau hynny, a lle bo'n berthnasol, at y rhifau paragraff sydd yn y canllaw drafft. Os ydych yn ateb ar ran rhywun, esboniwch os gwelwch yn dda pwy ydynt.

[1] Cyfieithir Office of Fair Trading (OFT) fel Swyddfa Masnachu Teg

Clustnodwyd ychydig dros dri mis i chi ystyried ac ymateb i'r drafft ac ateb cyn y 15fed, Tachwedd 2002 fan bellaf.

Ar dudalen 5, fe welwch enwau a manylion cyswllt dau berson yn yr OFT. Bydd un yn derbyn ymatebion a delio ag ymholiadau ynglŷn â chynnwys y ddogfen hon. Cyd gysylltydd yr ymgynghoriad yw'r llall sydd wedi ei benodi i sicrhau bod y broses yn cael ei gweithredu yn unol â Chôd Arferion Swyddfa'r Cabinet ar Ymgynghoriad Ysgrifenedig. Dylai sylwadau ynglŷn â phroses yr ymgynghoriad gael eu cyfeirio ato ef.

Caiff pob ymateb ei ddadansoddi a chyhoeddir crynodeb ohonynt. Gallasai ymatebion unigol gael eu cyhoeddi'n ogystal. Os ydych am i'ch sylwadau aros yn gyfrinachol, dylech wneud yn si r bod hyn yn glir yn eich ymateb.

Os cadarnheir y Mesur gan y Senedd, rydym yn bwriadu cyflwyno'r canllawiau terfynol a chrynodeb o'r ymatebion oleiaf ddeuddeg wythnos cyn i'r diwygiadau gael eu gweithredu. Os digwydd newidiadau arwyddocaol wrth i'r Mesur fynd rhagddo yn y Senedd neu fod opsiynau neu syniadau newydd yn dod i'r wyneb drwy'r broses ymgynghori, mae'n bosibl y byddwn yn ymgynghori eto ar y materion penodol hynny.

Gobeithio y byddwch yn chwarae rhan llawn yn yr ymarferiad ymgynghorol hwn. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich sylwadau.

Dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 15 fed o Dachwedd 2002.
Mae'r cyfeiriad ar gyfer ymatebion ar dudalen 5.